



TRAFNIDIAETH CYMRU TRANSPORT FOR WALES

Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig - Cofnodion y Bwrdd

27 Mai 2021

1400 – 1800

Lleoliad: ar-lein

Yn Bresennol

James Price (Cadeirydd); Peter Strachan; Heather Clash; Marie Daly; Jan Chaudhry; Alexia Course.

Yn bresennol hefyd: Jeremy Morgan (Ysgrifennydd y Bwrdd), Stephanie Raymond ar gyfer eitemau 8 a 9.

Rhan A

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim.

2. Hysbysiad Cworwm

Gan fod yna gworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod wedi agor.

3. Datganiadau o fuddiannau

Ni ddatgelwyd yr un.

4. Achos Diogelwch

Edrychodd y Bwrdd ar fideo sy'n codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a lles. Cytunodd y Bwrdd ar yr angen i nodi meysydd ychwanegol i arfogi pobl sy'n delio â chwsmeriaid â heriau iechyd meddwl a lles mewn gorsafoedd ac ar drenau **[Gweithredu MD]**.

5. Achos Cwsmer

Mae Teithio di-docyn yn parhau i fod yn bryder, er i gyfnod rheilffordd 1 weld gostyngiad i 31.1% yn nodi y gallai fod wedi cyrraedd isafbwynt. Mae peidio â chynnal gwiriadau tocynnau ar y trêrn yn parhau i ddwysáu ymdrechion i reoli osgoi talu er gwaethaf ymdrechion gorau timau Diogelu Refeniw. Gofynnodd y Bwrdd am y posibilrwydd o dracio gwyliadwriaeth y gatiâu. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei gynnwys wrth adrodd ar gyfer adroddiad y cyfnod nesaf ac wrth ystyried a yw'r lefelau'n briodol **[Cam Gweithredu MD]**. Cytunodd y Bwrdd i'r angen am strategaeth diogelu refeniw ôl-covid i ystyried yr holl faes o wirio tocynnau teithwyr, ac y dylid ei ystyried yng nghyd-destun system drafnidiaeth integredig sy'n esblygu.

6. Cofnodion a Chamau Gweithredu'r Cyfarfod Blaenorol

Cymeradwywyd y cofnodion o'r cyfarfod ar 30 Ebrill 2021, gan gynnwys eitemau i'w golygu, fel cofnod gwir a chywir. Nodwyd y Log Camau Gweithredu gyda sawl eitem i'w cynnwys yn ystod y cyfarfod.

7. Adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr

Trafododd y Bwrdd faterion cyfredol yn ymwneud â chynnal cydbwysedd rhwng cynyddu nifer y teithwyr a'r gofynion ymbellhau cymdeithasol presennol, ynghyd â thôn negeseuon a mesurau lliniaru rhesymol y gellid eu gwneud ynghylch cyhoeddiadau a cherdded drwy drenau i wirio bod ffenestri ar agor. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen am negeseuon cyson.

Mae gwaith yn parhau i gynyddu dibynadwyedd yr unedau Dosbarth 769. Adroddwyd bod chwe uned allan ar y rhwydwaith heddiw am y tro cyntaf. Pwysleiswyd, gyda Pacers allan o wasanaeth o ddiwedd yr wythnos, fod dibynadwyedd 769 yn arbennig o bwysig. Gofynnodd y Bwrdd am adolygiad o gadernid y prosesau derbyn a'r meini prawf ar gyfer fflyd wedi'i raeadru yn seiliedig ar wersi o'r Trenau Dosbarth 769 a Dosbarth 230 **[Gweithredu AC]**. Holodd y Bwrdd hefyd am ddibynadwyedd, cydnerthedd cynlluniau a hanes gwasanaeth y fflyd Dosbarth 67 **[Gweithredu JC i adolygu]**.

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf hefyd am:

- gynydd gyda phwynt tanwydd Rhymni;
- hyfforddiant criwiau trên ar gyfer fflyd sydd newydd ei raeadru;
- cynnydd ar gynllun ar gyfer dau drên yr awr i Flaenau'r Cymoedd o fis Medi 2021; a
- datblygu opsiynau ar gyfer dull gweithredu drws ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd, ar gyfer trafodaethau undeb.


Adolygodd y Bwrdd berfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Yn gyffredinol, mae perfformiad yn dangos tuedd gadarnhaol gyffredinol ar draws diogelwch, perfformiad a boddhad cwsmeriaid. Cytunwyd y dylai'r adroddiad gynnwys perfformiad seilwaith Amey **[Cam Gweithredu MD]**. Cytunodd y Bwrdd hefyd y byddai pob Dangosydd Perfformiad Allweddol yn cael ei adolygu gyda pherchennog y Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol gyda phwyslais ar ddeall y diffiniad a gosod targedau gyda'r risgiau a'r cyfleoedd o gyflawni/methu â chyrraedd targedau. Cytunwyd y bydd Dangosyddion Perfformiad Allweddol diogelwch yn cael eu hadolygu yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Diogelwch.

8. Adroddiad diogelwch

Roedd yr holl ddangosyddion diogelwch ar gyfer cyfnod rheilffyrdd 1 yn unol â'r rhagfynegiadau, gan arwain at barhad o wella cyfartaleddau blynyddol symudol mewn sawl ardal. Ni chafwyd unrhyw anafiadau penodol i'r gweithlu yn y cyfnod ac nid oedd unrhyw SPADs Categori A.

Cwblhawyd yr holl ymchwiliadau diogelwch gofynnol o fewn y cyfnod gyda phrydlondeb ymchwiliadau gan reolwyr cyfrifol yn parhau i wella.

Nodwyd bod ymgyrch a ariennir ar y cyd â Network Rail yn ystod mis Gorffennaf wedi'i chynllunio i gefnogi'r cyhoedd i gadw'n ddiogel wrth groesfannau rheilffordd a'i fod yn cael ei reoli o dan y Cynllun Gwella Diogelwch ar y Cyd (JSIP).



9. Cyfrifon Rheoli

Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod. Roedd y cymhorthdal gweithredu gofynnol ar gyfer cyfnod rheilffyrdd 1 yn £26.1m, sydd £3.2m yn llai na'r disgwyl ac wedi'i yrru'n bennaf gan refeniw teithwyr uwch na'r disgwyl, a oedd yn £1.8m ffafriol i'w ragweld.

10. Cyllideb 21-22

Cyflwynwyd y gyllideb ddrafft i'r Bwrdd ar gyfer 2021-22, sydd wedi'i diweddarau a'i diwygio o ragolygon ym mis Mawrth 2021 pan gafodd ei throsglwyddo i Rheilffyrdd TrC ac sy'n destun adolygiad pellach. Mae'r gyllideb a gyflwynir i'r Bwrdd yn cyflawni ymrwymiad i gyflwyno cyllideb ar sail sero i'r Bwrdd ym mis Mai 2021 ac adroddir yn ei herbyn o gyfnod rheilffyrdd 2. Y gofyniad ariannu cyffredinol ar gyfer 2021-22 yw £440 miliwn gan gynnwys y cymhorthdal gweithredu a chyfalaf. Hysbyswyd y Bwrdd bod y gyllideb yn seiliedig ar nifer o dybiaethau lefel uchel, cynnydd mewn refeniw teithwyr yn seiliedig ar fodelu mewnol yn hytrach na modelu'r Adran Drafndiaeth.

Mae prosiectau cyfalaf wedi'u hadolygu'n fanwl gyda'r newidiadau mawr ers rhagolwg mis Mawrth 2021 yn ymwneud â throsglwyddo canolfan reoli Ffynnon Taf i Grŵp TrC a chostau depo Treganna yn cael eu cydnabod ar lefel Rheilffyrdd TrC.

Nododd y Bwrdd y cynnydd o £4m mewn costau marchnata o ragolygon mis Mawrth 2021 a dywedwyd wrthym fod hyn yn gysylltiedig â chynllun twf rhwydwaith sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Cytunwyd y dylid ystyried y cynllun yn y cyfarfod nesaf ac y byddai David O'Leary yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol yn rheolaidd i gyflwyno diweddariadau penodol ar ganlyniadau, cynnydd y cynllun twf, cynlluniau adfer a materion strategol sy'n ymwneud â refeniw **[Cam Gweithredu JM]**. Gofynnodd y Bwrdd a ellid darparu mwy o fanylion am eitemau ategol y tu allan i'r incwm tocynnau, a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei ddarparu **[Cam Gweithredu SR]**.

Holodd y Bwrdd hefyd a oedd unrhyw ddarpariaeth wedi'i rhoi i estyniadau neu broffilio gwahanol ar gyfer prydlesi trenau yn y flwyddyn ariannol gyfredol hon. Cadarnhawyd nad oedd hyn yn ofynnol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ond y bydd ar gyfer 2022-23.

Nododd y Bwrdd y gyllideb a gaiff ei chymeradwyo mewn cyfarfod yn y dyfodol ar ôl ei hadolygu ymhellach.

11. Cynllun Busnes

Cymeradwyodd y Bwrdd gynnwys Cynllun Busnes 2021-22 a fydd yn cael ei adolygu ymhellach gan Grŵp TrC. Cadarnhawyd bod y cynllun at ddibenion mewnol ac yng ngoleuni'r adolygiad strategol sydd ar y gweill, efallai y bydd angen diwygio rhai o'r gwerthoedd ac y byddent yn cael eu dileu hyd nes y byddent wedi'u cadarnhau. Cadarnhawyd hefyd y bydd yr adolygiad strategol yn cynnwys asesu gofynion cynnwys cynlluniau busnes yn y dyfodol.

Rhan B

12. Amserlen Rhagfyr 22

Ystyriodd y Bwrdd bapur yn nodi canfyddiadau adolygiad o oblygiadau covid ar y gallu i gyflawni'r cynnydd yn yr amserlen o ran amllder gwasanaethau a glustnodwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Rhagfyr 2022. Mae cynllun cynyddu

amserlen ddiwygiedig wedi'i ddatblygu o amgylch dad-beryglu'r newidiadau, dileu newid amserlen 'clec fawr', newidiadau yn unol â chynllun gwreiddiol Rhagfyr 2022, gyda gweddill y newidiadau'n cael eu cyflwyno fesul llinell y llwybr. Roedd y papur yn seiliedig ar wybodaeth gan CAF a Stadler ynghylch darparu cerbydau newydd ac Amey Infrastructure Wales ynghylch trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae'r cynllun yn darparu llinell sylfaen newydd ar gyfer timau mewnol a Network Rail y byddai cynllunio'n seiliedig arnynt, yn ogystal â mecanwaith rheoli newid cadarn. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen i'r cynllun fod mor realistig â phosibl a'i ailysgrifennu yn seiliedig ar oedi o 12 mis gyda cherbydau CAF, gan ystyried sut i barhau i redeg gwasanaethau cyn y cynnydd, sut y caiff y cynnydd ei gyflawni, a sut y caiff y broses o drosglwyddo cerbydau ei rheoli a'i chynnal ar gyfer trenau hen a newydd. Cytunodd y Bwrdd hefyd i ddarparu'r dyddiadau pontio arfaethedig i Network Rail, a fydd hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer recriwtio a hyfforddi gyrwyr.

13. Achos Busnes y Ganolfan Hyfforddi Weithredol: Caer

Ystyriodd y Bwrdd Achos Busnes wedi'i ddiweddarau ar gyfer canolfan hyfforddi weithredol yn ardal ogleddol y rhwydwaith, gyda'r opsiwn a ffefrir i fynd i brydles yn The Steam Mill, Caer. Ystyriwyd saith lleoliad arall yng Ngogledd Cymru a'r Gororau ond nid oedd gan yr un o'r gorsafoedd yn y lleoliadau eraill hyn a ystyriwyd ddigon o ofod na gofod mewn cyflwr addas ar gyfer Canolfan Hyfforddi, gan gynnwys yr opsiwn o ddefnyddio cabanau portacabin ar dir ar brydles. Roedd arfarniad manwl o opsiynau wedi nodi mai Caer oedd y lleoliad mwyaf addas.

Fodd bynnag, nodwyd bod gorsaf Caer yn lleoliad anaddas a arweiniodd at nodi nifer o leoliadau posibl eraill yng Nghaer. Ar gost o £1.1 miliwn dros bum mlynedd, nodwyd mai The Steam Mill oedd yr opsiwn a ffefrir oherwydd ei agosrwydd at yr orsaf, ansawdd a hyblygrwydd yr adeiladau sydd ar gael a maint y cyfleuster gofynnol.

Gwrthododd y Bwrdd yr opsiwn a ffefrir ar sail gwerth am arian. Cytunodd i barhau â'r trefniadau presennol gyda'r bwriad o ganfod ateb mwy cost-effeithiol i gyd-fynd ag adolygiad hyfforddiant strategol. Cytunodd y Bwrdd i archwilio rhinweddau cyflogi gwasanaethau asiant eiddo i nodi atebion cost-effeithiol posibl i leoli'r ganolfan hyfforddi.

Cytunwyd i nodi lleoliad dros dro addas ar gyfer yr efelychydd, megis caban portacabin, gyda'r potensial i'w symud unwaith y bydd yr adolygiad hyfforddiant strategol wedi'i gwblhau, yn amodol ar gost. Cytunodd y Bwrdd, pe na bai modd cyflawni'r opsiynau a ddewiswyd, na ddylai beryglu'r broses o ddarparu rhaglenni hyfforddi.

14. Achos Busnes y Ganolfan Hyfforddi Weithredol: Caerdydd

Cymeradwyodd y Bwrdd Achos Busnes i ddefnyddio'r swyddfeydd presennol yn Nhŷ Sant Padrig, Caerdydd ar gyfer Canolfan Hyfforddi Weithredol ar gost o £400,000 dros bum mlynedd. Cytunwyd i gadarnhau'r gost o symud y cyfleuster pan ddaw prydles Tŷ Sant Padrig i ben yn 2024 **[Gweithredu MD]**.

15. Dylunio a strwythur sefydliadol

Trafododd a chymeradwyodd y Bwrdd y strwythur sefydliadol arfaethedig, a gaiff ei adolygu ymhellach ar ôl cwblhau'r adolygiad o'r gyllideb a nifer y staff ac ar y cyd ag adolygiad o wariant ar ymgynghorwyr ar draws grŵp TrC.

[REDACTED]



17. Awdurdod dirprwyedig

Cymeradwyodd y Bwrdd fatrics diwygiedig yr awdurdod dirprwyedig. Cytunwyd i egluro sawl eitem y tu allan i'r cyfarfod.

18. Unrhyw Fater Arall

Cafwyd adborth ynglŷn â threnau nad ydynt yn stopio ar blatfformau byr. Cytunwyd i adolygu hyn **[Gweithredu JC]**.